**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Peter Perry,
Prif Swyddog Gweithredol, Dŵr Cymru

25 Gorffennaf 2023

Israddio Dŵr Cymru

Nodaf gyda phryder yr adroddiadau diweddar bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi israddio Dŵr Cymru i sgôr dwy seren, gan nodi bod angen gwella. Daw hyn yn dilyn dirywiad mewn perfformiad amgylcheddol, fel yr amlinellwyd yn adolygiad blynyddol CNC. Mae'r adroddiad yn datgelu bod digwyddiadau llygredd wedi codi 7 y cant yn 2022, gyda digwyddiadau effaith fawr neu sylweddol yn cynyddu o dri i bump.

Y flwyddyn flaenorol, cafodd Dŵr Cymru ei israddio o sgôr pedair seren i sgôr tair seren yn dilyn adroddiad perfformiad amgylcheddol CNC ar gyfer 2021. Daeth hyn ar ôl canfod bod Dŵr Cymru wedi achosi 83 o achosion o lygredd yn ymwneud â charthion, o gymharu â 77 y flwyddyn flaenorol.

- Pa gamau penodol y mae Dŵr Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a arweiniodd at ei israddio am yr ail flwyddyn yn olynol?
- A allwch chi egluro pam y bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cyfrif fel rhai "effaith fawr neu sylweddol" o dri i bump yn 2022? Sut mae Dŵr Cymru yn bwriadu lleihau nifer yr achosion o lygredd carthion, yn enwedig y rhai sy'n cael effaith fawr neu sylweddol?
- Pa wersi y mae'r cwmni wedi'u dysgu o'i berfformiad yn 2021, a sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso i wella'i berfformiad?

Effaith amgylcheddol

Rhyddhaodd Dŵr Cymru garthion i afonydd, llynnoedd, a'r môr o amgylch Cymru am bron 600,000 o oriau y llynedd, mwy na 25 y cant o'r holl oriau arllwys i ddyfrffyrdd ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn ddealladwy wedi arwain at bryder sylweddol ymhlith y cyhoedd.

- Sut mae Dŵr Cymru yn mynd i'r afael â'r pryderon amgylcheddol sylweddol a godwyd yn sgil ei weithrediadau, yn enwedig rhyddhau carthion i afonydd, llynnoedd, a'r môr?

- Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i leihau nifer yr oriau y mae carthion yn cael eu rhyddhau i afonydd, llynnoedd, a'r môr?

### Hunan-adrodd am ddigwyddiadau

Mae disgwyl i gwmnïau dŵr hunan-adrodd digwyddiadau i CNC cyn i eraill wneud hynny, oherwydd gall ymateb cyflym liniaru effaith llygredd. Methodd Dŵr Cymru hefyd â gwella nifer y digwyddiadau yr hunan-adroddwyd amdanynt i CNC, gyda’r gyfradd yn disgyn i 65 y cant, sef gostyngiad o 7 y cant ers 2021.

- Sut mae Dŵr Cymru yn bwriadu gwella’r ffordd y mae’n hunan-adrodd digwyddiadau i Cyfoeth Naturiol Cymru, a ddisgynnodd i 65 y cant yn 2022?
- Sut mae Dŵr Cymru yn cymharu ei berfformiad a’i strategaethau rheoli llygredd â chwmnïau dŵr eraill, fel Hafren Dyfrdwy, lle na chafwyd unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol yn 2022?
- Pa wersi y gall Dŵr Cymru eu dysgu o berfformiad cwmnïau dŵr eraill, yn enwedig o ran hunan-adrodd digwyddiadau?

### Cynnydd mewn prisiau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol

Ym mis Ebrill, cynyddodd Dŵr Cymru ei brisiau i fil cyfartalog o £499 y flwyddyn, sef yr ail uchaf yng Nghymru a Lloegr. Mae Dŵr Cymru wedi datgan ei fod yn gweithio i gyflawni’r gwelliannau sydd eu hangen mewn amgylchiadau heriol, yn enwedig wrth iddo brofi mwy o dywydd garw ac amrywiadau eithafol yn yr hinsawdd. Deallaf fod Dŵr Cymru yn bwriadu buddsoddi £100m yn ychwanegol i wella ansawdd afonydd erbyn 2025 fel rhan o gynllun gwella gwerth £840m.

- A allwch chi roi rhagor o wybodaeth am y cynllun buddsoddi £100m i wella ansawdd afonydd erbyn 2025? Sut y bydd hyn yn mynd i'r afael yn benodol â'r materion llygredd?
- Sut mae buddsoddiad Dŵr Cymru mewn seilwaith a diogelu’r amgylchedd yn cymharu â buddsoddiad cwmnïau dŵr preifat yn y DU?
- Dywedir bod cwmnïau dŵr preifat yn y DU wedi talu difidendau sylweddol i gyfranddalwyr dros nifer o flynyddoedd. Fel cwmni nid-er-elw, sut mae rheolaeth ariannol ac ail-fuddsoddiad Dŵr Cymru yn y cwmni a’i wasanaethau yn cymharu?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb ac esboniad manwl o sut mae Dŵr Cymru yn bwriadu mynd i’r afael â’r pryderon hyn a gwella’i berfformiad. Efallai y bydd y Pwyllgor am ddychwelyd at y mater hwn a rhai cysylltiedig eraill yn nhymor yr hydref.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.